

Enw	Lleisiau Cymru
Uwch gynhyrchydd	Gareth Iwan Jones , Sioned Lewis, Cerian Arianrhod, Gruffudd Pritchard
Slot	14:00 ar ddyddiau Mawrth Gan hefyd ddarlledu yn llinol yn ystod y cyfnod ffi drwydded, yn ôl gofynion yr amserlen.
Hyd	27 munud a hanner *
Pris	£800 - £2,200
Briff	Podlediadau nodwedd / adloniant / ffeithiol yw rhein, yn cyhoeddi dan frand Lleisiau Cymru Ein bwriad yw comisiynu nifer fach o gyfresi byrion, a hefyd ambell raglen unigol. Nod Lleisiau Cymru yw denu cynulleidfaoedd newydd at y cynnwys Cymraeg sydd ar BBC Sounds, yn ogystal ag annog y gynulleidfa llinol i ddefnyddio mwy o'n platfform digidol ni. Rydyn ni wedi gweld twf iach yn nifer y defnyddwyr wythnosol unigryw sydd gan Radio Cymru ar BBC Sounds, a'n bwriad yw adeiladu ar y twf yma. Dylai'r podlediadau: • Cynnwys lleisiau a safbwyntiau sy'n adlewyrchu profiadau amrywiol • Apelio at gynulleidfa eang, gan gynnwys rhai sydd ddim yn wrandawyr rheolaidd ar gynnwys Cymraeg • Cynnwys amrywiaeth o leisiau, a gorau oll os oes ambell lais sy'n newydd i wrandawyr Radio Cymru • Fod yn symlach o ran adeiladwaith na'n rhaglenni llinol ni • Fod yn llai dibynnol ar ddyddiadau penodol, gan gofio bod rhein ar gael ar BBC Sounds am gyfnod hirach na 30 diwrnod. Wrth gynllunio, ystyriwch ble mae'r bylchau yn ein darpariaeth bresennol ar BBC Sounds.

	*Bydd y comisiynau yma yn cyhoeddi fel podlediad yn gyntaf ond, yn unol â strategaeth Digital First y BBC, ein bwriad yw manteisio ar gyfleon i annog gwrandawyr i ddarganfod y cyfoeth o gynnwys Cymraeg sydd ar BBC Sounds. Fe fydd y podlediadau sydd dan frand Lleisiau Cymru hefyd felly yn darlledu yn llinol o fewn cyfnod y ffi drwydded, gyda nifer yn darlledu yn y slot 16:00 dydd Sul. Oherwydd hyn mae gofyn i'r podlediadau sy'n cael eu comisiynu ar gyfer Lleisiau Cymru yn 2027-2028 fod yn 27'30" o hyd. Fe fyddwn ni yn gofyn i chi ddarparu deunydd hyrwyddo petai'ch cynnig yn cael ei gomisiynu. Ymhlith podlediadau Lleisiau Cymru sy'n denu cynulleidfau gref ar BBC Sounds ar hyn o bryd mae: Lleisiau Cymru: 1 mewn 2 gyda Mari Grug Lleisiau Cymru: Yn Ôl i Midffild Lleisiau Cymru: Ding Dong Lleisiau Cymru: Y Podlediad Trosedd Lleisiau Cymru: Dim Ond Geiriau <u>Nodyn cyfreithiol am Lleisiau Cymru a hawlfreintiau</u> Mae Lleisiau Cymru yn cael ei dosbarthu ar ffrwd RSS (h.y. mae'r podlediadau ar gael ar blatfformau masnachol, fel Spotify, Apple Podcast a BBC.com). Oherwydd hyn mae'r comisiynau yma yn amodol ar roi'r holl hawliau angenrheidiol i'r BBC o dan y Telerau Masnach Sain i alluogi'r BBC i ymarfer ac ymelwa ar y fath hawliau, gan gynnwys clirio'r hawliau sylfaenol. Mae hyn yn golygu nad oes modd cynnwys unrhyw ddeunydd sydd dan hawlfraint (caneuon, llenyddiaeth, cerddoriaeth, geiriau caneuon yn cael eu darllen) yn y comisiynau; does dim eithriad yn bosib i'r drefn yma. Bydd y BBC yn berchen ar sail ecsglwsif ac yn rheoli'r ffrwd RSS y mae'r teitl wedi ei chyhoeddi arni, a bydd gan y BBC yr hawl i gofrestru teitl y ffrwd fel nod masnach.
--	--